WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o'r rhaglen adfywio yn y Barri ac Ynys y Barri – **Cyngor Bro Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1392A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bro Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru nac mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei gymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei ddilyn, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a thrydydd partïon perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon gael eu hanfon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Samantha Clements, Lisa McCarthy a Ron Price dan gyfarwyddyd Sara-Jane Byrne.

# Cynnwys

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn galw am newid sylweddol i wreiddio'r pum ffordd o weithio yn llawn a bydd hyn yn cymryd amser. Rydym yn cydnabod y gall y Cyngor ddangos ei fod wedi gweithredu yn ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran ei ddull o fynd ar drywydd adfywio yn y Barri.

Fodd bynnag, mae lle i'r Cyngor wneud mwy i wreiddio'r pum ffordd o weithio, egluro ei weledigaeth a'i ddull strategol, ac integreiddio'i gynlluniau gyda rhai ei sefydliadau partner wrth adfywio'r Barri.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r Cyngor wedi ystyried anghenion tymor byr, canolig a hir wrth ddatblygu ei ddull o adfywio'r Barri ac yn awr mae angen iddo sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ei ddull 6

Mae'r Cyngor yn cyflawni nifer o weithgareddau ataliol, ond mae lle i roi ystyriaeth well i achosion sylfaenol problemau a manteision ataliol y cam 7

Mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio dull integredig ond mae angen iddo ystyried yn fwy llawn sut y mae'r cam hwn yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ef a chyrff eraill i gynyddu i'r eithaf y manteision y gallai'r cam eu dwyn 8

Mae gan y Cyngor hanes o gydweithio effeithiol, ond mae lle i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ardal gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn seiliedig ar ddadansoddi data a thueddiadau 9

Gall y Cyngor ddangos nifer o gryfderau o ran ei ddull o gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid eraill, ond nid yw'n glir sut y mae amrywiaeth lawn y gymuned yn cael ei chynnwys 10

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 11

Cynllun Gweithredu 11

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliom ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud y canlynol:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn bob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, **Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)**. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19 fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Fe wnaethom hefyd gydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Gan bod y gwaith rhagarweiniol ym mlwyddyn un wedi cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant, prif ffocws y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2019 a mis Chwefror 2019.

8 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o'r rhaglen adfywio yn y Barri ac Ynys y Barri, cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

9 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

## Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

10 Fe archwiliom ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r rhaglen adfywio yn y Barri ac Ynys y Barri.

11 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

### Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen **Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**[1] Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

12 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn galw am newid sylweddol i wreiddio'r pum ffordd o weithio yn llawn a bydd hyn yn cymryd amser. Rydym yn cydnabod y gall y Cyngor ddangos ei fod wedi gweithredu yn ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran ei ddull o fynd ar drywydd adfywio yn y Barri. Fodd bynnag, mae lle i'r Cyngor wneud mwy i wreiddio'r pum ffordd o weithio, egluro ei weledigaeth a'i ddull strategol, ac integreiddio'i gynlluniau gyda rhai ei sefydliadau partner wrth adfywio'r Barri

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae'r Cyngor wedi ystyried anghenion tymor byr, canolig a hir wrth ddatblygu ei ddull o adfywio'r Barri ac yn awr mae angen iddo sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ei ddull

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

13 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

14 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom y cryfderau canlynol:

- cynnydd sylweddol o ran gwella'r cyflenwad o dai a seilwaith trafnidiaeth ac ansawdd y rhain, sydd â'r potensial i ddwyn manteision mwy hirdymor i gymunedau lleol;
- ystyriaeth i'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (EDC) yn y cynllun datblygu lleol (CDLl); a
- defnydd o ddata i roi cymorth i feddwl am y tymor hir.

16 Canfuom y meysydd canlynol i'w gwella:

- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r galw am dai, ond mae'n cydnabod yr angen i gymhwyso ystyriaethau mwy hirdymor i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor cymunedau;
- mae lle i'r Cyngor ystyried tueddiadau cymdeithasol ehangach i oleuo ei gynlluniau; a hefyd
- cyfle i adolygu cynaliadwyedd ei strategaeth hirdymor ar gyfer adfywio economaidd.

[2] Gweler Atodiad 1

## Mae'r Cyngor yn cyflawni nifer o weithgareddau ataliol, ond mae lle i roi ystyriaeth well i achosion sylfaenol problemau a manteision ataliol y cam

### Yr hyn y chwilion ni amdano

17 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

18 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuom

19 Canfuom y cryfderau canlynol:

- ffocws ar ymgysylltu â masnachwyr a busnesau i ddeall yr achosion ac i atal dirywiad economaidd pellach; a
- digwyddiadau ac ymgyrchoedd sylweddol i gynyddu a chynnal Ynys y Barri fel cyrchfan deniadol i dwristiaid gan atal dirywiad pellach mewn cyfleoedd gwaith.

20 Canfuom y meysydd canlynol i'w gwella:

- roedd gan bobl wahanol farn wahanol am yr hyn y maent yn ceisio'i atal ar draws y sefydliad, ac achosion sylfaenol problemau;
- cyfle i ddisgrifio manteision ataliol ar draws y system gyfan y gellid eu dwyn trwy adfywio'r Barri; a hefyd
- nid yw'r weledigaeth ar gyfer trefniadau teithio cynaliadwy a llesol i Ynys y Barri yn y dyfodol yn eglur eto.

[3] Gweler Atodiad 1

## Mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio dull integredig ond mae angen iddo ystyried yn fwy llawn sut y mae'r cam hwn yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ef a chyrff eraill i gynyddu i'r eithaf y manteision y gallai'r cam eu dwyn

### Yr hyn y chwilion ni amdano

21 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant y Cyngor a blaenoriaethau ehangach; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

22 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

23 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae uwch swyddogion a chynghorwyr yn deall sut y bydd adfywio'r Barri yn llwyddiannus yn cyfrannu at amcanion llesiant y Cyngor;
- mae arweinyddiaeth yn y Cyngor yn rhoi ffocws ar amcanion llesiant a diwylliant cefnogol i fynd i'r afael ag anghenion y gymuned; a hefyd
- cydweithio cadarnhaol rhwng gwasanaethau'r Cyngor i gefnogi cymunedau cynaliadwy.

24 Canfuom y meysydd canlynol i'w gwella:

- lle i ystyried cyfraniad ehangach at y Nodau Llesiant Cenedlaethol o fewn cynlluniau adfywio;
- peth ystyriaeth i fanteision lluosog o ran yr hyn y gall y cam hwn ei gyflawni, ond mae cyfleoedd i fod yn fwy systematig;
- mae lle i integreiddio cynlluniau'n fwy pendant gyda phartneriaid i osgoi dyblygu a chynyddu cyfleoedd i'r eithaf; ac
- mae angen dealltwriaeth ehangach am integreiddio o fewn y Cyngor yng nghyd-destun y Ddeddf.

[4] Gweler Atodiad 1

## Mae gan y Cyngor hanes o gydweithio effeithiol, ond mae lle i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ardal gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn seiliedig ar ddadansoddi data a thueddiadau

### Yr hyn y chwilion ni amdano

25 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

26 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn[5].

### Yr hyn a ganfuom

27 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae ffocws ar le gan ddefnyddio data a gwybodaeth am dueddiadau o gymorth i gydweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â themâu sy'n datblygu;
- mae Tîm Datblygu Economaidd y Cyngor yn effeithiol o ran meithrin capasiti mewn cymunedau, annog mentrau cymdeithasol a gweithio gyda'r trydydd sector; a
- gweithio gyda Chyngor Tref y Barri i sefydlu'r 'Ymgyrch Siopa'n Lleol' a chamau posibl i sefydlu'r Ardal Gwella Busnes.

28 Canfuom y meysydd canlynol i'w gwella:

- lle i ddatblygu fframwaith cyffredin/gweledigaeth gyffredin i roi sicrwydd i'r holl randdeiliaid ynglŷn â'r cyfeiriad teithio;
- diweddaru cynlluniau Fframwaith Canol y Dref trwy gydweithio gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion; a hefyd
- cyfle i fynd ati ymhellach i ddatblygu strategaethau cydweithredol gyda phartneriaid i gynyddu i'r eithaf effeithiolrwydd adnoddau ariannol a chyflawni'r Amcanion Llesiant a chyrraedd y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

[5] Gweler Atodiad 1

## Gall y Cyngor ddangos nifer o gryfderau o ran ei ddull o gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid eraill, ond nid yw'n glir sut y mae amrywiaeth lawn y gymuned yn cael ei chynnwys

### Yr hyn y chwilion ni amdano

29 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

30 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuom

31 Canfuom y cryfderau canlynol:

- ffocws ar gynnwys partneriaid allweddol – er enghraifft, Fforwm Canol y Dref a chynnwys dinasyddion ar faterion amgylcheddol yn Ynys y Barri;
- parodrwydd i roi cynnig ar amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu;
- defnyddio ymgynghorwyr allanol i oleuo'r broses ymgysylltu – ymgynghori a chynnwys o ran Ymdeimlad o Le – gweithdai ymgysylltu â'r gymuned; a
- defnydd cadarnhaol ac effeithiol o'r cyfryngau cymdeithasol.

32 Canfuom y meysydd canlynol i'r gwella:

- lle i sicrhau ei fod wedi cynnwys pob rhan o'r gymdeithas, ac amrywiaeth lawn y rhai y mae'r Ddeddf yn effeithio arnynt, mewn ffordd fwy ffurfiol a strwythuredig; a hefyd
- cyfle i fynd ati ymhellach i werthuso llwyddiant ac effeithiolrwydd ei ddull o drosglwyddo asedau i gymunedau.

[6] Gweler Atodiad 1

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

33 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Mai 2019 yr oedd swyddogion o'r adrannau cynllunio, adfywio a thwristiaeth ac uwch swyddogion eraill yn bresennol ynddo. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau. O ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy, a myfyrio pellach ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu, a nodir isod.

34 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau.

## Cynllun Gweithredu

35 Mae'r cynllun gweithredu hwn mewn ymateb i ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar yr archwiliad dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o'r rhaglen adfywio yn y Barri ac Ynys y Barri.

36 Mae'r cynllun gweithredu wedi'i saernïo yn ôl y pum ffordd o weithio ac yn seiliedig ar y meysydd i'w datblygu a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan nodi camau gweithredu y gellir eu cymryd mewn perthynas ag adfywio'r Barri ac Ynys y Barri yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys i waith y Cyngor i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn gyffredinol.

### Arddangosyn 2: Cynllun Gweithredu

| Hirdymor |
| --- |
| **Mae'r Cyngor wedi ystyried anghenion tymor byr, canolig a hir wrth ddatblygu ei ddull o adfywio'r Barri ac yn awr mae angen iddo sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ei ddull.** |
| **Meysydd i'w Datblygu**<br>• Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r galw am dai, ond mae'n cydnabod yr angen i gymhwyso ystyriaethau mwy hirdymor i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor cymunedau;<br>• Mae lle i'r Cyngor ystyried tueddiadau cymdeithasol ehangach i oleuo ei gynlluniau; a hefyd<br>• Cyfle i adolygu cynaliadwyedd ei strategaeth hirdymor ar gyfer adfywio economaidd. |

<table>
<tr><th colspan="2">Hirdymor</th></tr>
<tr><td>Egwyddorion a Dulliau Cyffredinol</td><td>Camau Gweithredu i Adfywio’r Barri ac Ynys y Barri</td></tr>
<tr><td><ul><li>Sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn ymwybodol o safonau polisi cenedlaethol mewn meysydd allweddol, er enghraifft tai a chynllunio adfywio a’i fod yn dylanwadu ar y rhain, lle y bo’n bosibl.</li><li>Wrth ddatblygu’r Cynllun Corfforaethol newydd, sicrhau bod ffocws ar gynaliadwyedd yn glir o safbwyntiau byw, gweithio a theithio.</li><li>Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethau i’w cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol newydd, sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ystod o ddata ynghylch tueddiadau.</li><li>Ystyried ffyrdd y gall y Cyngor ddatblygu ei rôl fel ‘arweinydd cymunedol’ wrth osod y safon – er enghraifft, mewn cartrefi, nid tai, cynaliadwy a sicrhau bod camau gweithredu’n cael eu cymryd yn unol â’r Ddeddf.</li></ul></td><td><ul><li>Wrth ddylunio (neu gymeradwyo) cynlluniau adfywio, sicrhau bod y rhain yn cael eu ‘diogelu at y dyfodol’ o ran seilwaith ac effaith amgylcheddol (megis mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan a chysylltedd TGCh ac ati).</li><li>Wrth ddatblygu cynlluniau Economaidd ac Adfywio, ystyried tueddiadau mwy hirdymor mewn arferion gweithio er mwyn cynllunio ac ymaddasu iddynt (er enghraifft, mannau cydweithio sy’n lleihau’r angen i deithio).</li><li>Datblygu gweledigaeth hirdymor mewn cynlluniau Economaidd ac Adfywio, ond sicrhau bod cyflawniadau amlwg yn gallu cael eu sicrhau ymhen blynyddoedd, nid cenedlaethau, ac alinio hynny â gwariant yn y rhaglen gyfalaf.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2">Integreiddio</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae’r Cyngor wedi dechrau defnyddio dull integredig ond mae angen iddo ystyried yn fwy llawn sut y mae’r cam hwn yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ef a chyrff eraill i gynyddu i’r eithaf y manteision y gallai’r cam eu dwyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Meysydd i’w Datblygu<ul><li>Lle i ystyried cyfraniad ehangach at y Nodau Llesiant Cenedlaethol o fewn cynlluniau adfywio;</li><li>Peth ystyriaeth i fanteision lluosog o ran yr hyn y gall y cam hwn ei gyflawni, ond mae cyfleoedd i fod yn fwy systematig;</li><li>Mae lle i integreiddio cynlluniau’n fwy pendant gyda phartneriaid i osgoi dyblygu a chynyddu cyfleoedd i’r eithaf; ac</li><li>Mae angen dealltwriaeth ehangach am integreiddio o fewn y Cyngor yng nghyd-destun y Ddeddf.</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Hirdymor</th></tr>
<tr><td>Egwyddorion a Dulliau Cyffredinol</td><td>Camau Gweithredu i Adfywio’r Barri ac Ynys y Barri</td></tr>
<tr><td>• Mapio amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), partneriaid a’r Cyngor fel modd i adnabod ble y gallai dulliau ar y cyd arwain at lai o ddyblygu a mwy o effaith o ran cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.<br>• Ceisio ehangu dealltwriaeth cydweithwyr ac aelodau yn y Cyngor am ystyr ‘integreiddio’ fel ffordd o weithio a manteision hynny wrth ailddylunio Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-2025.</td><td>• Mynd ati ymhellach i ddatblygu’r dull o ran ‘cyllidebau seiliedig ar leoedd’ gan dwyn ynghyd wariant adrannau lluosog yn y Cyngor – a phartneriaid (gan gynnwys y Cyngor Tref) – yn seiliedig mewn ardaloedd daearyddol diffiniedig i gefnogi cynlluniau Economaidd ac Adfywio ar y cyd.<br>• Wrth ddatblygu cynlluniau Economaidd ac Adfywio, gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, ystyried y cyfundrefnau cyllido a grantiau sydd ar gael i wahanol sefydliadau, er mwyn cynyddu effaith yr arian sydd ar gael i’r eithaf.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cynnwys</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gall y Cyngor ddangos nifer o gryfderau o ran ei ddull o gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid eraill, ond nid yw’n glir sut y mae amrywiaeth lawn y gymuned yn cael ei chynnwys.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Meysydd i’w Datblygu<br>• Lle i sicrhau ei fod wedi cynnwys pob rhan o’r gymdeithas, ac amrywiaeth lawn y rhai y mae’r Ddeddf yn effeithio arnynt, mewn ffordd fwy ffurfiol a strwythuredig; a hefyd<br>• Cyfle i fynd ati ymhellach i werthuso llwyddiant ac effeithiolrwydd ei ddull o drosglwyddo asedau i gymunedau.</td></tr>
</table>

| Hirdymor | |
|---|---|
| **Egwyddorion a Dulliau Cyffredinol** | **Camau Gweithredu i Adfywio'r Barri ac Ynys y Barri** |
| • Mabwysiadu dull ymgynghori ac ymgysylltu agos-atoch sy'n defnyddio iaith ddealladwy ac sydd wedi'i dargedu at gynulleidfaoedd priodol.<br>• Ystyried ehangu'r defnydd o ddulliau digidol i'w gwneud yn bosibl cyfathrebu gyda phob rhan o'n cymuned a'u cynnwys wrth lunio a gwneud sylwadau ar benderfyniadau polisi, gan gefnogi sgiliau llythrennedd digidol lle y bo angen.<br>• Ceisio defnyddio data mewn ffordd fwy effeithiol i adnabod a thargedu grwpiau penodol a manteisio ar wybodaeth a phrofiad adrannau'r Cyngor a all fod â pherthynas gyda'r grwpiau hyn yn barod (e.e. mewn timau Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfathrebu).<br>• Wrth ddylunio ymarferion cynnwys, ymgysylltu, ymgynghori a chyfathrebu, ystyried y ffordd y bydd y canlyniadau'n cael eu gwerthuso ar adeg gynnar. | • Cymryd gwersi o'r ffordd yr ymgynghorwyd ynghylch taliadau posibl am barcio ceir gan bod yr ymgynghoriad hwn wedi cyrraedd cynulleidfa fawr.<br>• Wrth ddatblygu cynlluniau Economaidd ac Adfywio newydd, ceisio cynnwys y gymuned (preswylwyr a pherchnogion busnes) yn y gwaith o drefnu'r cynllun a'i gyfeiriad).<br>• Datblygu gwaith y 'bwrdd lleoedd' i roi mewnbwn i ddatblygiad cynlluniau Economaidd ac Adfywio, gan gynnwys cynrychiolwyr o wahanol rannau o'r gymuned.<br>• Ceisio cyflymu'r broses trosglwyddo asedau cymunedol i'w gwneud yn bosibl trosglwyddo asedau priodol i'r gymuned. Cynorthwyo cymunedau i ddatblygu'r sgiliau a chael mynediad at yr adnoddau y mae eu hangen i gymryd asedau drosodd.<br>• Hyrwyddo'r Gronfa Grant Cymunedau Cryfion ymhlith grwpiau cymunedol sydd â diddordeb mewn prosesau trosglwyddo asedau cymunedol i hybu gweithrediad cynaliadwy'r asedau hyn.<br>• Prif-ffrydio dull pecyn cymorth mapio cymunedol i rymuso cymunedau'r Barri i adnabod eu hasedau cymdeithasol a ffisegol. Y nod fydd ysgogi gweithgareddau adfywio newydd a meithrin capasiti mewn cymunedau. Profwyd fod mapio cymunedol yn offeryn amhrisiadwy i adnabod blaenoriaethau yn y Fro wledig ac ar gyfer dyrannu cyllid Adran 106. |

<table>
<tr><th colspan="2">Hirdymor</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cydweithio</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae gan y Cyngor hanes o gydweithio effeithiol, ond mae lle i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ardal gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn seiliedig ar ddadansoddi data a thueddiadau.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Meysydd i’w Datblygu<br>Lle i ddatblygu fframwaith cyffredin/gweledigaeth gyffredin i roi sicrwydd i’r holl randdeiliaid ynglŷn â’r cyfeiriad teithio.<br>Cyfle i fynd ati ymhellach i ddatblygu strategaethau cydweithredol gyda phartneriaid i gynyddu i’r eithaf effeithiolrwydd adnoddau ariannol a chyflawni’r Amcanion Llesiant a chyrraedd y Nodau Llesiant Cenedlaethol.<br>Diweddaru cynlluniau Fframwaith Canol y Dref trwy gydweithio gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion.</td></tr>
<tr><td>Egwyddorion a Dulliau Cyffredinol</td><td>Camau Gweithredu i Adfywio’r Barri ac Ynys y Barri</td></tr>
<tr><td>• Ffocws ar ddull seiliedig ar leoedd i roi terfyn ar seilos posibl o fewn a rhwng sefydliadau.<br>• Datblygu cyd-ddealltwriaeth am asedau ar draws sefydliadau a’r cyfleoedd i gydweithio i gynyddu eu gwerth i’r eithaf.<br>• Dwyn partneriaid ynghyd i adnabod a rhannu data a all oleuo datblygiad strategaethau yn y dyfodol.</td><td>• Ystyried ffyrdd o gyflwyno dull seiliedig ar glystyrau/hybiau ar gyfer gweithgarwch adfywio gyda phartneriaid, er enghraifft sut i gydweithio’n agosach gyda phartneriaid ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>• Datblygu cynlluniau Economaidd ac Adfywio yng nghyd-destun ehangach Bargen y Brifddinas-Ranbarth i leoli’r Barri fel ardal fuddsoddi ar gyfer sectorau amrywiol.<br>• Wrth ddatblygu cynlluniau Economaidd ac Adfywio, cynnwys yr holl bartneriaid o’r dechrau un a seilio’r weledigaeth ar gyfres o flaenoriaethau ar y cyd y cytunwyd arnynt.<br>• Bod yn arloesol a chreadigol wrth sicrhau ‘perchnogaeth’ ar gynlluniau Economaidd ac Adfywio a thrwy ymgysylltu â’r holl randdeiliaid lleol i sicrhau dull ‘o’r gwaelod i fyny’ o ddatblygu polisïau.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Atal</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae’r Cyngor yn cyflawni nifer o weithgareddau ataliol, ond mae lle i roi ystyriaeth well i achosion sylfaenol problemau a manteision ataliol y cam.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Meysydd i’w Datblygu<br>• Roedd gan bobl wahanol farn wahanol am yr hyn y maent yn ceisio’i atal ar draws y sefydliad, ac achosion sylfaenol problemau;<br>• Cyfle i ddisgrifio manteision ataliol ar draws y system gyfan y gellid eu dwyn trwy adfywio’r Barri; a hefyd<br>• Nid yw’r weledigaeth ar gyfer trefniadau teithio cynaliadwy a llesol i Ynys y Barri yn y dyfodol yn eglur eto.</td></tr>
</table>

| Hirdymor | |
|---|---|
| **Egwyddorion a Dulliau Cyffredinol** | **Camau Gweithredu i Adfywio'r Barri ac Ynys y Barri** |
| • Gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl bartneriaid presennol a phosibl i ddatblygu strategaethau atal hirdymor.<br>• Ceisio pennu cyllidebau hirdymor lle bynnag y bo'n bosibl i'w gwneud yn bosibl i gynllunio ataliol mwy hirdymor ddigwydd.<br>• I ddeall achosion sylfaenol materion yn iawn, byddwn yn ceisio ymgysylltu â chymaint o bobl â phosibl.<br>• Er mwyn atal problemau bydd yn rhaid mabwysiadu dull amlasiantaeth lle bynnag y bo'n bosibl, er enghraifft gyda Trafnidiaeth Cymru, y GIG a'r Heddlu.<br>• Ceisio defnyddio'r asedau (gan gynnwys ein treftadaeth forol, tai newydd, cysylltiadau trafnidiaeth, twristiaeth, hamdden a thechnoleg) yn yr ardal fel ffordd o atal problemau yn y dyfodol mewn ffyrdd newydd ac arloesol. | • Cynyddu i'r eithaf fanteision y Barri o ran byw a gweithio gyda'i harfordir ac ansawdd bywyd yng nghyd-destun amgylchedd dinesig De Cymru.<br>• Yng nghyd-destun y Barri fel canolbwynt teithio llesol (gyda phedair gorsaf reilffordd a digonedd o lwybrau beicio a cherdded), ystyried rheolaeth hirdymor ar draffig ar gyfer y Barri yn seiliedig ar leihau'r defnydd o geir gyda thargedau mesuradwy ar gyfer defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy.<br>• Trwy ddarparu gwybodaeth a marchnata, ceisio mynd ati ymhellach i wella'r canfyddiad am y Barri fel lle i fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi.<br>• Paratoi cynlluniau Economaidd ac Adfywio mewn ymgynghoriad ag ystod eang o randdeiliaid i gyflawni dealltwriaeth gyffredin am unrhyw broblemau, eu hachosion sylfaenol a sut y gallwn fynd i'r afael â hwy gyda'n gilydd. |

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau i ganfod i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r EDC. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach nag yn 'benderfynyddion' sy'n nodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r EDC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 3: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?** |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
|---|
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol? |
|---|
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol? |
|---|
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru